


Annwyl Riant/Warchodwr

Gwahoddir eich plentyn i gofrestru ar gyfer Sialens Ddarllen yr Haf eleni. Cofrestrwch AM DDIM yn eich llyfrgell leol!

## Beth yw Sialens Ddarllen yr Haf?

Mae Sialens Ddarllen yr Haf yn annog plant i ddal ati i ddarllen yn ystod gwyliau haf yr ysgol – ac i fwynhau darllen unrhyw beth maen nhw'n ei hoffi! Gwahoddir plant i osod nod darllen a chasglu gwobrau am eu darllen. Mae cymryd rhan AM DDIM.

Mae'n ffordd anhygoel o hybu hyder plant – y llynedd roedd 72% o'r plant a gymerodd ran yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddarllen.

## Pam ddylai fy mhlentyn gofrestru?

• Byddant yn fwy parod i ddychwelyd i'r ysgol yn yr hydref.

• Mae'r Sialens yn cefnogi symud i grŵp neu flwyddyn newydd.

• Mae dod yn fwy annibynnol yn eu darllen yn rhoi hwb i hyder a hunan-barch plant.

• Mae'r llyfrgell yn darparu mynediad am ddim i lyfrau a gweithgareddau hwyliog i'r teulu drwy gydol yr haf.

• Mae staff y llyfrgell wrth law i gynnig cymorth ac i wneud argymhellion.

Bydd eich plentyn yn rhan o raglen DU gyfan a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Ddarllen ac a gyflwynir mewn partneriaeth â'r rhwydwaith llyfrgelloedd cyhoeddus.

## Sut gall fy mhlentyn gymryd rhan? (Llyfrgell NEU ar-lein)

**Yn y llyfrgell.**

Ewch i'ch llyfrgell leol a chofrestrwch. Bydd eich plentyn yn:

• Gosod nod darllen ar gyfer yr haf a benthyg a darllen unrhyw lyfrau, eLyfrau a llyfrau sain.

• Derbyn poster a chasglu sticeri arbennig a gwobrau am ddarllen.

**Ar-lein**.

Cymerwch ran ar-lein –

sialensddarllenyrhaf.org.uk

- Cofrestrwch ar wefan swyddogol y Sialens.
- Gosodwch nod darllen a chael awgrymiadau a chynghorion llyfrau.
- Datgloi bathodynnau digidol a gwobrau ar-lein, gan gynnwys tystysgrif argraffadwy

**Pryd?**

Bydd y Sialens yn cael ei lansio yng Nghymru a Lloegr ar **Orffennaf 6**.

Ewch i'ch llyfrgell leol yr haf hwn a chofrestrwch!

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â

**Llyfrgell Rhuthun 01824 705274**

**llyfrgell.rhuthun@sirddinbych.gov.uk**

Yn gywir

Meira Jones